**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 24 Mai, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr G.D.D. Carroll, Mrs. P. Drake, Dr. I.J. Johnson, K.F. McCaffer, Mrs. J.M. Norman, L.O. Rowlands, M.R. Wilson and Mr. P. Lewis (Lay Member).

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd G.D.D. Carroll yn cael ei benodi'n Cadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 2. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd L.O. Rowlands yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 4. COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 6. CRYNODEB ARCHWILIAD BLYNYDDOL BRO MORGANNWG 2020 A CHYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIO ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA (RG).

PENDERFYNWYD –

(1) Y nodir cynnwys Crynodeb Archwiliad Blynyddol Bro Morgannwg 2020 (Atodiad A) a chyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a'r Cabinet gydag unrhyw argymhellion / sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

(2) Y nodir y cynnydd a wnaed hyd yma o ran mynd i'r afael ag argymhellion a chynigion gwella a wnaed gan ein rheoleiddwyr allanol (fel yn Atodiad B i'r adroddiad) a'i gyfeirio at y Cabinet gydag unrhyw argymhellion / sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I ddarparu ar gyfer craffu ac adolygu Crynodeb Archwiliad Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol 2020 (Adroddiad Gwella Blynyddol).

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei argymhellion rheoleiddio a'i gynigion gwella ac yn ymateb yn briodol i'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd drwy raglen Archwilio Cymru o Astudiaethau Llywodraeth Leol yn lleol a cenedlaethol.

EITEM AGENDA 7. CYNLLUN ARCHWILIO CYMRU 2021 (PC/SA151).

PENDERFYNWYD –

(1) I nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) I gynhyrchu nodyn briffio sy'n amlinellu prif oblygiadau dyfarniad McCloud a'i ddosbarthu i holl Aelodau'r Cyngor.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I hwyluso'r gwaith o fonitro'r swyddogaeth Archwilio.

(2) I roi crynodeb i Aelodau'r Cyngor o'r prif oblygiadau yn dilyn dyfarniad McCloud.

EITEM AGENDA 8. EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO – HUNANASESIAD (PGAR).

PENDERFYNWYD – Fod cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a’r atodiadau.

Rhesymau dros benderfyniadau

Sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn cael y cyfle i ymateb i'r adroddiad drafft a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

EITEM AGENDA 9. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) – CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR WEDI'I DDIWEDDARU (PGAR).

PENDERFYNWYD – Fod cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r atodiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

I ystyried y sefyllfa bresennol o ran Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r camau a gymerwyd gan Gyngor y Fro i baratoi ar gyfer yr un peth.

EITEM AGENDA 10. SIARTER GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL 2021/22 (PGAR).

PENDERFYNWYD – I gymeradwyo Siarter Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2021/22 fel yr atodir yn Atodiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio, a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

EITEM AGENDA 11. CYNNYDD YN ERBYN YR ARCHWILIAD MEWNOL SEILIEDIG AR RISG RISG 2020-21 (PGAR).

PENDERFYNWYD – I nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2020-21.

Rhesymau dros benderfyniadau

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

EITEM AGENDA 12. RHAGLEN WAITH YMLAEN WEDI'I DIWEDDARU (PGAR).

PENDERFYNWYD – I gymeradwyo’r Flaenraglen Waith.

Rhesymau dros benderfyniadau

Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn ymwybodol ac wedi ei hysbysu ynghylch y cynnydd a wnaed ar y rhaglen waith arfaethedig.